

Rhagarweiniad

Mae cynhyrchu moch yn fasnachol yn y DU yn seiliedig ar genfeiniau mawr, a rhyw 80% wedi'u cadw mewn cenfeiniau o fwy na 1,000. Mae'r genfaint fridio yn y DU wedi crebachu dros y blynyddoedd, i ryw 300,000 o hychod. Yng Nghymru, ni fu cig moch erioed yn gynnyrch amaethyddol o bwys, a cheir llai o genfeiniau arbenigol yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Yn y 10 mlynedd hyd at 2009, bu gostyngiad yn y nifer a gofnodwyd o hychod bridio yng Nghymru, o 10,800 i 3,700. Erbyn hyn, mae'r genfaint foch yng Nghymru o ryw 20,000 yn cyfateb i ryw 0.5% o boblogaeth moch y DU. Fodd bynnag, ceir adfywiad yn y diddordeb mewn cadw moch, nid yn unig gan fân-ddeiliaid a ffermwyr rhan-amser, ond hefyd i lenwi'r marchnadoedd arbenigol, sydd fel arfer yn broffidiol, gan ofyn am gynhyrchion moch arbenigol o fridiau hŷn a chymharol brin a fegir yn llai dwys.

Deddfwriaeth

P'un a fyddoch yn dymuno cadw cenfaint fasnachol neu hyd yn oed un mochyn fel anifail anwes, bydd angen ichi fod yn gofrestrdedig. Mae'r manylion wedi'u nodi'n glir yn y cyhoeddiad – 'Canllaw Cadw Moch'. (Ceir manylion dan 'gwybodaeth ychwanegol'). Mae hwn yn ymwneud â chofrestru, symud, cadw cofnodion, dulliau adnabod, cyngor ar fwydo a chlefydau hysbysadwy, ynghyd â rhai cysylltiadau defnyddiol a chysylltiadau â gwefannau sy'n egluro ynglŷn â chofrestru a thrwyddedau symud.

Gwybodaeth a Hyfforddiant

Dylid bod â gwybodaeth sylfaenol ynglŷn â hwsmonaeth a lles moch cyn mentro i fydd cadw moch. Ceir digon o wybodaeth o lyfrau a'r rhyngwyd, ond mae cael rhywfaint o brofiad ymarferol yn amhrisiadwy.

Marchnata a phrosesu

Dylech ystyried hyn o'r cychwyn. Hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu cadw ond ychydig berchyll ei eich defnydd eich hun, bydd angen o hyd ichi drefnu ar gyfer lladd a bwtsiera a'r cludiant sy'n gysylltiedig.

Bridiau

Ceir ystod eang o fridiau i ddewis o'u plith, yn amrywio o rywogaethau masnachol tra datblygedig, hyd at y bridiau prin. Ceir 13 o fridiau o dras sefydledig yng ngenfaint y DU. Mae rhywogaethau masnachol wedi'u bridio i gynhyrchu cig moch yn effeithlon iawn. Pan groesir bridiau masnachol sydd wedi ennill eu plwyf, megis y *Landrace* a'r Gwyn Mawr, cyflwynir cryfder cymysgryw, sy'n arwain at fwy o foch bach, a'r rheiny'n tyfu'n gynt. Yn wahanol i hyn, mae'r bridiau traddodiadol a chymharol brin yn cymryd mwy o amser i dyfu, maent yn cymathu bwyd yn arafach, ac yn cynhyrchu cig sydd â mwy o fraster ond, yn ôl rhai, yn fwy blasus.

Penderfynwch pa frid fyddai'n addas ar gyfer eich system a'ch amgylchedd arfaethedig, a chanfyddwch p'un ai perchyll ynteu stoc fridio sydd ar gael gan



gyflenwydd sydd ag enw da. Mae ymweliad â sioe amaethyddol i gael drafodaeth â bridwyr yn amhrisiadwy.

Iechyd a Lles

P'un a fyddont yn newydd neu'n brofiadol, dylai'r holl gynhyrchwyr gael copi o'r 'beibl', sef y Cod Argymhellion ar Les Da Byw: Moch. (Ceir manylion dan 'gwybodaeth ychwanegol'). Yn ogystal ag ymdrin â'r gofynion cyfreithiol yng nghyswllt cynhyrchu moch, ceir ynddo lawer o gyngor gwerthfawr ac ymarferol ar lawer o feysydd sy'n gysylltiedig â rheolaeth, hwsmonaeth a chynhyrchu. Yn gynhenid, mae moch yn dda byw iach, ac efallai mai ychydig yn unig o sylw filfeddygol y bydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig ymglyfarwyddo â'r practis milfeddygol lleol, ag afiechydon sy'n gyffredin ar foch ac arwyddion o afiechyd, a bod yn fodlon rhoi triniaeth wrth-lyngyr a brechiadau iddynt.

Cynhyrchu

Mewn cynnyrch masnachol, ychydig o dan 12 o foch bach yw maint cyfartalog torllwyth, er mai ychydig yn llai na 10 a fegir, ar gyfartaledd, oherwydd colledion. Ar gyfartaledd, bydd hychod yn magu rhyw 21 o foch bach y flwyddyn. Dyma'r pwysau nodweddiadol yn ôl oed:-

	Pwysau Nodweddiadol (kg)	Byw	Pwysau Nodweddiadol (kg)	Marw	Oed (diwrnodau)	Bras
Porchell/ Stôr	-		35		84	
Mochyn	53		72		135	
Mochyn Torri	64		86		150	
Mochyn Bacwn	72		95		180	
Mochyn Trwm	85		110		200	

Mewn cynnyrch masnachol, caiff moch bach eu diddyfnu pan fyddant tua 4 wythnos oed, a hynny, yn nodweddiadol, ddwywaith y cyfnod mewn systemau helaeth. Dylai moch bach allu mynd at ddiol-borthiant maethlon o oedran cynnar. Mae hyn yn eu galluogi i dyfu i'r eithaf wrth i gynnyrch llaeth yr hwch leihau, ac fel y deuant i arfer â diddyfnu. Nid yw'r mwyafrif o'r moch gwryw a gedwir ar gyfer cynnyrch masnachol wedi'u disbaddu. Mae systemau llai dwys yn arwain at gyfnodau llawer hwy cyn lladd, fel y bydd angen disbaddu'r gwrywod, er mwyn osgoi problemau ymddygiadol, ynghyd â chig sydd â blas 'baedd gwyllt'.

Porthiant

Mae bwyd yn gost fawr, yn cyfrif am hyd at 80% o gost cynhyrchu. Mae moch yn bwyta popeth, a thra byddant yn yr awyr agored, byddant yn pori ar laswellt, ond nid yw hyn yn ddigon i ateb eu gofynion am faeth. Fel rheol, mae dognau moch wedi'u seilio ar rawnfwydydd, ychwanegyn protein, ynghyd â mwynau a fitaminau. Mae ar foch angen diet cytbwys, a geir yn y modd mwyaf hwylus oddi wrth gymysgwr lleol. Mae meintiau bach a brynir mewn bagiau yn ddrud. Mae pwysau byw o 100kg erbyn eu bod yn 5 mis oed yn darged nodweddiadol mewn sefyllfa fasnachol. Fel syniad bras, gellir defnyddio cymhareb o 2.5:1 o ran trosi bwyd, sef bod 2.5kg o fwyd yn arwain at 1kg o gynnydd mewn pwysau byw. Yn nodweddiadol, rhwng adeg diddyfnu a lladd, bydd moch sy'n tyfu yn bwyta cyfartaledd o 1.8kg - 2 kg o fwyd bob dydd, gyda rhyw 5 litr o ddŵr. Dylai dŵr fod ar gael yn rhwydd, ac mae'n arferol cynnig

Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir, nid ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau gweithredu a wneir ar sail ei chynnwys.

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Cefnogi Defnydd Tir Cynaliadwy

bwyd *ad libitum* hyd nes bod y mochyn yn pwyso rhyw 50-60kg. Ar ôl iddynt gyrraedd y pwysau hyn, bydd angen cyfyngu'r bwyd, neu roi'r moch ar ddietau llai dwys, fel na fydd gormod o fraster ar y carcass. Fel yr aiff moch yn hŷn, gellir lleihau maint y protein a gynigir mewn perthynas ag ynni. Yn y cyfnod cymharol ddiweddar hwn o orffen, ceir cyfle i arbed costau trwy roi dognau 'cartref' neu ychwanegu llysiau at y bwyd (mae'n anghyfreithlon rhoi unrhyw gig nac olion sy'n cynnwys cynhyrchion cig, felly ni ddylid eu bwydo ag olion o'r gegin. Er bod gofynion bwyd hwch feichiog yn gymharol isel, bydd ar hwch â llond torllwyth o foch bach angen 8-10 kg o ddietau sy'n gyfoethog o ran ynni a phrotein, ac yfed mwy na 20 litr o ddŵr.

Cartrefu

Mae rhywogaethau masnachol tra datblygedig yn fwyaf addas ar gyfer systemau cynhyrchu dwys dan do. Mae moch yn anifeiliaid cymdeithasgar iawn, a gwell ganddynt fyw mewn grwpiau bychain. Maent yn hoffi 'nythu'; maent yn anifeiliaid glân, ac ni fyddant yn defnyddio eu manau cysgu fel toiled. Efallai na bydd cymdogion yn gwerthfawrogi eu tail drewllyd, a gallant gadw llawer iawn o sŵn ar amser bwyd. Mae angen ystyried lle y maent i'w cadw a'r math o gartref i'w rhoi iddynt, hyd yn oed os na fwriedir cadw ond ychydig berchyll bach. Mae moch buarth ar eu hapusaf pan fyddant yn gallu gwireddu eu dyhead naturiol i ymdrybaeddu ac i gloddio'r tir; byddant yn chwilota ac yn bwyta amrywiaeth eang o fwyd. Gwell ganddynt dir prysg neu goetir ysgafn. Mae moch yn sensitif i eithafion o ran hinsawdd, ac yn dibynnu ar got o fraster i'w hamddiffyn rhag oerfel. Gall moch gwynion losgi'n ddrwg yn yr haul, felly mae cysgod yn hanfodol. Os ydych yn mabwysiadu system fuarth, mae cytiau pren pwrpasol i foch, neu gytiau cartref, yn gweithio'n dda. Gall ffensys fod yn drydanol neu â physt a rheiliau gyda rhwydi. Mae gan ffensys trydanol y fantais o fod yn rhwydd eu symud ar gyfer pori lleiniau.

Economeg

Hyd yn oed os ydych yn cadw moch ar raddfa fach yn unig, dylech baratoi cyllideb a chadw manylion llawn am yr holl gostau, fel y gellwch gyfrif yr elw a wnewch. Ar ei symlaf, gallai hyn olygu cost perchyll, bwyd, gwellt a lladd.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Arweiniad ar gyfer rhai sy'n newydd i Gadw Moch

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/farmanimaltracing/pigkee persguidance/pigkeepersguidance/?lang=cy>

- Y Cod Argymhellion ar Les Da Byw: Moch

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/livestockw elfare/codesofrecommendation/pigcode/?lang=cy>

- BPEX

<http://www.bpex.org.uk/>

- Y Gymdeithas Foch Genedlaethol

<http://www.npa-uk.net/>

- Y Gymdeithas Foch Brydeinig

<http://www.britishpigs.org.uk/>



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use
Canolfan Ddefnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government